# Geni Iesu (Stori'r Nadolig)

**Luc 2: 1-7**

Gallwch lawrlwytho’r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae’r Cynllun Stori yma yn dangos be sy’n digwydd ym mhob rhan o’r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno’r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

| | Disgrifiad | Llun | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | Luc 2: 1-7 |  | |
| 1 | Dyma Cesar Awgwstws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd. Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad. |  | |
| 2 | Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth, a mynd i gofrestru i Bethlehem. |  | |
| 3 | Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi. Roedd Bethlehem yn brysur a doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo. |  | |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Roedd Mair angen gorffwys. Roedd amser geni'r babi'n agos. |  |
| 5 | O'r diwedd fe gawson nhw le mewn stabl. |  |
| 6 | Tra roedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni. |  |
| 7 | Roedd Joseff yn gofalu am Mair. |  |
| 8 | Ac fe anwyd mab - bachgen bach. |  |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | Yn union fel roedd yr angel Gabriel wedi dweud. |  |
| 10 | Dyma Mair yn lapio cadachau geni yn ofalus am y babi... |  |
| 11 | ..a'i osod i orwedd... |  |
| 12 | ...mewn preseb (cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid). |  |
| 13 | Cyfieithwyd gan www.beibl.net | Free Bible images<br>THE WORD IN PICTURES<br>www.freebibleimages.org |

| | |
|---|---|
| 14 | LUMO<br>PROJECT<br>GOSPEL MATTHEW<br>GOSPEL MARK<br>GOSPEL LUKE<br>GOSPEL JOHN |